# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 21 Mehefin 2022.**

**Presennol:** Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, Einir Thomas, William Victor Owen a Dyfed Williams

Hefyd yn bresennol: Ken Taylor - Cynghorydd Sir
Mai Owen Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Sharon Parry.

**2. Datganiad o ddiddordeb –** Cyng. G. O. Jones a Cyng. Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 5.1.

**3. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol -** Derbyniwyd fod cofnodion 10 Mai 2022 yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. G.O. Jones)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Seddi gwag – Cytunwyd yn unfrydol i gyf-ethol Mr Gareth Thomas fel Cynghorydd Cymuned a byddai'r clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir o hynny. Roedd un sedd wag o hyd y byddai'n rhaid llenwi honno drwy'r broses ethol ymhellach ymlaen.
Gan fod Mr Thomas yn bresennol yn yr adeilad fe'i gwahoddwyd i lofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd, fe gytunodd a mynychodd am weddill y cyfarfod.

4.2 Cae Chwarae:- Cytunwyd y byddai'r clerc yn archebu digon o glud fel y gallai'r contractwr wneud treial ar atgyweirio darn o'r matiau diogelwch. Byddai'r clerc hefyd yn cael pris am atgyweirio'r wal gerrig a'r ffens.

4.3 Llwybrau:- Roedd y gwaith ar y llwybrau troed wedi'i gwblhau – byddai toriad arall yn cael ei wneud ddiwedd Awst /dechrau Medi. Dywedodd y Cynghorydd Gordon Owen fod dwy giât newydd wedi'u cael yn lle'r rhai a oedd wedi pydru ar lwybr troed Rhif 5.

4.4 Cytundeb y Clerc – cytunwyd i gynyddu oriau contract y clerc i 6 awr yr wythnos ar y raddfa gyflog bresennol.

4.5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – dim.

**5. Materion Plwyfol**

5.1 Parc Solar Traffwll **-** Derbyniwyd hysbysiad o fwriad Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (Llywodraeth Cymru) i gynnal gwrandawiadau ym mis Gorffennaf a gwahoddwyd y Cyngor Cymuned i gymryd rhan. Cytunwyd i edrych ar hyn eto cyn gynted ag y cadarnhawyd y dyddiadau.

5.2 Beddmanarch - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, (SSSI) - Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael gwybod bod aelodau o'r cyhoedd yn gyrru ac yn lansio Jet



Arwyddwyd …………………………………………Cadeirydd.

Ski's yn Beddmanarch-Cymyran, ac yn achosi difrod i'r safle. Roeddent yn gobeithio gosod giât wrth y pwynt mynediad a ddefnyddiwyd i lansio. Gofynnwyd am farn y cyngor cymuned ar y mater, pwy oedd yn debygol o fod angen mynediad a pwy fyddai angen allweddi ac ati – Cytunwyd i fynegi gwrthwynebiad y Cyngor. Byddai gosod giât yn debygol iawn o achosi problemau tebyg i'r rhai a brofwyd yng Nghymyran lle'r oedd cau'r mynediad wedi creu helbulon gyda'r cyhoedd.

5.3 Problemau parcio Cymyran – Roedd y clerc yn dal i dderbyn nifer o gwynion am y parcio yng Nghymyran. Cytunwyd i anfon y dystiolaeth ffotograffig oedd wedi ei addo iddi i'r Adran Briffyrdd gyda chais iddynt archwilio'r posibilrwydd o ddarparu maes parcio yno.

## 6. Penderfyniadau Cynllunio

6.1 HHP/2022/114 Tyn y Waun, Ffordd Caergybi - caniatâd.

## 7. Ceisiadau Cynllunio

7.1 **FPL/2022/13 Glanrhyd Isaf, Fali**
Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol i storio peiriannau – dim gwrthwynebiad.

## 8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.5. 2022 i 31.5.2022 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £24,545.59, Cyfrif Cadw £3,939.17.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd ei bod yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth TWE fel y gellid talu eu Lwfans.

## 9. Taliadau i'w gwneud : Cytunwyd i dalu'r rhain

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog mis Mai | £243.61 | GMS (arch29/4) | £168 |
| CSYM (etholiad) | £135 | GMS (arch 27/5) | |
| S. Wharton | £360 | | |

## 10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

10.1 Fersiwn 2022 o'r Canllaw Cynghorydd Da

10.2 Canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

10.3 Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

10.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru



Arwyddwyd ……………………………………………Cadeirydd.

**11. Adroddiadau Aelodau**

11.1 Sportsman’s Caergeiliog - Cafwyd sawl cwyn ynglŷn â'r gordyfiant a thipio anghyfreithlon ar y safle ac roedd pryderon fod nifer o bobl ifanc yn cyfarfod yno'n hwyr yn y nos. Byddai'r clerc yn rhoi gwybod i’r Adran Iechyd yr Amgylchedd am gyflwr yr eiddo.

11.2 Minffordd Garage, Llanfihangel yn Nhowyn – nodwyd bod man bwyta wedi'i greu ar y safle. Byddai'r clerc yn cyfeirio'r mater at yr Adran Gynllunio

**12. Cyfarfod Nesaf - 28 Mehefin 2022**



Arwyddwyd …………………………………………Cadeirydd.